

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor - Nos Fawrth, 19eg o Fai 2015.

Presennol: Cyng. Einir Thomas (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Gordon Owen
Cyng. Beryl Salisbury
Cyng. Dyfed Williams

Ymddiheuriadau: Cyng. Gwynfor Jones

2. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol - 20fed o Fai 2014 - derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Gordon Owen, eilio Cyng. Gwilym O. Jones.)

3. Ethol Swyddogion 2015 – 2016

Cadeirydd - Gyda Cyng. Dyfed Williams yn cynnig a Cyng. Gwilym O. Jones yn eilio fe etholwyd Cyng. Einir Thomas yn Gadeirydd am y flwyddyn 2015-2016.

Is-gadeirydd - Gyda Cyng. Einir Thomas yn cynnig a Cyng. Dyfed Williams yn eilio fe etholwyd Cyng. Gwilym O. Jones fel Is-gadeirydd am 2015- 2016.

.....
4. Datganiad o ddiddordeb - Cyng. Gordon Owen - eitem 9 (2) Cynllunio Cymyran House

5. Cofnodion Cyfarfod 21ain o Ebrill 2015 - derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Gordon Owen, eilio Cyng. Gwilym O. Jones.)

6. Materion yn codi o'r cofnodion

1. Llwybrau - 'Roedd GMS Ground Maintenance wedi dechrau torri'r rhain.
2. Llifogydd Llanfihangel yn Nhowyn - cafwyd e-bost gan Ian Simms RSPB yn cynnig cyfarfod ar y safle i drafod y mater. Yr unig lifogydd yr oedd o yn ymwybodol ohonynt oedd y rhai ar y ffordd rhwng y bont reilffordd wrth brif fynedfa RAF Fali a mynedfa'r maes parcio RSPB ger Llyn Penrhyn. Roedd o'r farn fod y dŵr yn dod o'r comin, yn rhedeg i lawr i mewn i'r maes parcio RSPB, yn llifo allan ar y llwybr ac yn treiddio i mewn i'r llyn. Gan mai Bwrdd Gofalwyr y Tywyn oedd wedi codi'r mater yn y lle cyntaf cytunwyd y byddai'n well iddynt drafod y broblem gyda Mr Simms eu hunain. Gofynnwyd i'r clerc anfon e-bost Mr Simms iddynt er mwyn iddynt gael trafod y mater ymhellach.
3. Seddi Gwag - Derbyniwyd rhybudd ffurfiol i'w ddefnyddio mewn perthynas â'r sedd wag ddiweddaraf (gyda dyddiad cau 15 Mehefin 2015). Cadarnhawyd hefyd y gallai'r Cyngor

**CYNGOR CYMUNED
LLANFAIR YN NEUBWLL
COMMUNITY COUNCIL**

co-optio aelodau i'r seddi eraill heb ail hysbysebu am fod rhybudd cyfethol wedi ei roid ar eu cyfer yn Mehefin 2013.

4. Cyrsiau Dwr - Treifan - Roedd CSYM yn awyddus i gael gwybod os mai dŵr llwyd oedd y dŵr sefyll - h.y. dŵr sebon o beiriannau golchi ac ati, ac os felly, byddai angen iddynt gael gwybod y ffynhonnell. Credai Cyng. Dyfed Williams mai dŵr glaw oedd yna a chytunwyd mai ef ddylai fod y pwynt cyswllt ar gyfer y Cyngor Sir.
5. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - Cytunwyd y byddai'r clerch yn ceisio canfod pwy oedd yn gyfrifol am y darn tir o gwmpas y lloches bws wrth Poplars gan fod y gwrychoedd rhosyn o'i gwmpas angen eu tori.

7. Cytundebau a Thelerau:

- a) Frank Rowlands - cytunwyd y byddai'r clerch yn sicrhau fod Mr Rowlands yn barod i barhau i gadw golwg ar y cae chwarae ac ati.

8. Cytundebau / tâl a thelerau: - Cytunwyd y dylai'r clerch roi gwybodaeth am raddfeydd cyflogau Llywodraeth Leol yn y cyfarfod nesaf.

9. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref

Ceisiadau Cynllunio

1. 32C144B/LUC 22 Zealand Park - Cais am Dystysgrif Cyfreithlondeb i ddangos fod gwaith cychwyn materiol (creu mynedfa) wedi cael ei wneud ar ganiatad cynllunio 32C144A (codi annedd) - cytunwyd mai mater i'r swyddogion cynllunio oedd hwn.
2. 32C48C - Cymyran House, Caergeiliog - Cais llawn i ddymchwel gweithdy presennol a codi gweithdy newydd yn ei le. - dim gwrthwynebiad.
3. 32C190A Bont Gam, Llanfair yn Neubwll - Cais llawn i godi modurdy/storfa - dim gwrthwynebiad
4. 32C194/LB - Tollgate, Caergeiliog - Cais am Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer addasu ac ehangu - dim gwrthwynebiad on cytunwyd hefyd mae mater i'r swyddogion cynllunio oedd hwn.

10. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn

1. Grantiau - nodwyd

Arwyddwyd:.....(Cadeirydd)

11. Materion Ariannol

Yn y banc ar 19.5.2015 Cyfrif Cyfredol £6515.90 Cyfrif Cadw £1417.17

Taliadau i'w gwneud

Cyflog y clerch (Ebrill)	£160.00	HMRC (TWE Ebrill)	£40.00
GMS (16571)	£91.20	Frank Rowlands	£180.00
AON	£1,675.89	Eisteddfod Môn	£100.00
Urdd Gobaith Cymru (Môn)	£25.00	Radio Ysbyty Gwynedd	£25.00

Cytunwyd y dylai'r Cyngor ymrwymo i gytundeb tair blynedd gyda AON er mwyn bod yn gymwys i gael gostyngiad o 5%, gofynnwyd i'r clerch ofyn am esboniad o'r yswiriant a ddarparwyd ar gyfer yr offer chwarae ac ati.

Fel arall, cytunwyd i dalu pob un o'r uchod (Cynnig Cyng. Gwilym O. Jones, eilio Cyng. Gordon Owen)

12. Cyfrifon 2014-2015 - Roedd yr Archwilwyr Allanol wedi cytuno i roi'r dyddiad cyflwyno yn ôl tan ar ôl y cyfarfod ym mis Mehefin er mwyn i'r Archwiliwr Mewnol gae eu harchwilio fel y trefnwyd ganddo.

13. Gohebiaeth Eraill

1. Cyfarfod Cyffredinol Arbennig - Pwyllgor Ardal Ynys Môn - nodwyd
2. Mynediad i Wybodaeth am Gyngorau Cymuned a Thref - Cytunwyd y byddai'r clerch yn edrych ar hyn er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn cydymffurfio.

14. Unrhyw fater arall - Dywedodd Cyng. Gwilym O. Jones fod y ffens rhwng y cae chwarae a Croeso mewn cyflwr gwael a bod hyn yn golygu bod plant yn gallu cael mynediad i'r iard y tu ôl iddo. Cytunwyd y byddai'r clerch ofyn i Mr Redmond am amcan bris ar gyfer ei thrwsio .

15. Cyfarfod nesaf 16eg o Fehefin 2015